

# Dogfen Ymgynghoriad Ffurfiol Cynnig i Gynyddu Capasiti Disgyblion Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd



Fersiwn Plant a Phobl Ifanc

## Pwy ydym ni?

Grŵp o bobl sy'n cael dweud o ran sut mae ysgol yn cael ei rhedeg yw'r Corff Llywodraethu.

Ein tasg ni, efo'r Pennaeth, yw cynllunio sut y bydd yr ysgol yn newid a gwella.

## Beth sy'n digwydd?

Rydym yn gweithio efo'r Eglwys yng Nghymru a'r Awdurdod Lleol i greu cynllun i newid dy ysgol.

Hoffem ni glywed dy farn am y cynllun yma.



## Beth yw'r cynllun?

Hoffem ni gynyddu faint o blant sy'n gallu mynd i dy ysgol.

Hoffem ni gynnig lle i hyd at 3 o blant ychwanegol ym mhob blwyddyn drwy'r ysgol.

## Beth fydd yn newid?

Os bydd y newid yn cael ei gymeradwyo:

Gallai fod hyd at 3 o blant ychwanegol ym mhob blwyddyn.

Gallai'r gymysgedd o blant ym mhob dosbarth newid. Efallai y byddi di'n rhannu dosbarth efo plant sydd flwyddyn yn hŷn neu flwyddyn yn ieuengach na thi. *Er enghraifft, os wyt ti ym flwyddyn 2, efallai y byddi di'n rhannu dosbarth efo plant o flwyddyn 1 neu flwyddyn 3.*



## **Pam ydym ni'n gofyn am dy farn?**

Mae'n bwysig dy fod yn rhoi dy farn i ni – rydym ni eisiau holi beth yw dy farn am ein cynllun.

Byddwn yn dod i'r ysgol ac yn cyfarfod efo'r cyngor ysgol.

Byddem hefyd yn hoffi petaet ti'n gallu ateb y cwestiynau ar ddiwedd y ddogfen hon a'u hanfon yn ôl atom.

## **Pam ydym ni'n meddwl bod angen newid pethau?**

Ers i ni gael ein hadeilad newydd, rydym wedi sylwi bod mwy o bobl wedi bod yn gofyn am gael dod i'n hysgol ni.

Byddem yn hoffi cynnig y cyfle i fwy o blant gael mynd i ysgol sy'n nes at eu cartref yn hytrach na gorfod teithio i ysgol sy'n bellach i ffwrdd.

## Pa mor hir fydd hyn yn ei gymryd?

|   |                                  |
|---|----------------------------------|
| Casglu barn pobl  | 10 Medi —22 Hydref 2021          |
| Rhoi gwybod i bawb beth ydym ni wedi'i ddarganfod             | 16 Tachwedd 2021                 |
| Rhoi gwybod i bawb am y cynllun terfynol a chael eu barn arno | 22 Tachwedd -<br>19 Rhagfyr 2021 |
| Cyngor yn penderfynu os bydd y newid yn digwydd               | 12-17 Ionawr 2022                |



## Eisiau gwybod mwy?

Os wyt ti eisiau dod o hyd i fwy o wybodaeth, mae yna ddogfen hirach ar y rhyngwrdd ar gyfer rhieni, athrawon ac aelodau o gymuned yr ysgol.

Mae'r ddogfen hirach ar ein gwefan.

<https://www.ysgollanfairdc.cymru/ymgyngoriad.htm>

I ofyn am gopi caled o unrhyw un o'r dogfennau ymgynghori, anfonwch e-bost at [ymgyngoriadysgolllanfair@sirddinbych.gov.uk](mailto:ymgyngoriadysgolllanfair@sirddinbych.gov.uk)

## Beth wyt ti'n feddwl?

Os ydych yn edrych ar y ddogfen hon ar-lein yna cliciwch [yma](#) i gwblhau'r arolwg ar-lein;

Mi gei di ysgrifennu unrhyw beth wyt ti eisiau ddweud wrthym a'i anfon yn y post atom:

*Ymgynghoriad Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd,*

*Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd,*

*Rhuthun,*

*Sir Ddinbych,*

*LL15 2SD*

Neu, os ydi hi'n well gen ti anfon e-bost, anfon dy farn at:

[ymgyngoriadysgolllanfair@sirddinbych.gov.uk](mailto:ymgyngoriadysgolllanfair@sirddinbych.gov.uk)

Cofia ddweud wrthym ni:-

- Sut wyt ti'n teimlo am Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn cael mwy o ddisgyblion?

- Sut wyt ti'n teimlo am y posibilrwydd o rannu dosbarth efo plant sydd flwyddyn yn hŷn neu flwyddyn yn iau na thi?

- Oes yna unrhyw beth arall fyddet ti'n hoffi ei weld yn digwydd yn hytrach na beth sydd yn ein cynllun?

Anfonwch eich sylwadau atom erbyn 22 Hydref 2021. Yn anffodus, ni allwn dderbyn unrhyw beth sy'n cael ei anfon atom ar ôl y dyddiad hwn.